

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2016–2017

CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ar waith Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GwASB) a Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB) fel ei gilydd. Gwaith datblygu a wnaed eleni at ei gilydd, gan fod penderfyniadau wedi'u gwneud i sicrhau mwy o gydweithredu ar draws y ddwy agenda. Bellach, cefnogir gwaith y ddau Fwrdd gan un uned fusnes.

Roedd yr aelodau'n cydnabod bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ogystal â rhoi statws statudol i ddiogelu oedolion, yn cynnig cyfle i'r rhanbarth i sicrhau bod y ddau faes gwaith yn gyfartal. Yn sgil y diwrnod datblygu cyntaf ar y cyd i aelodau'r Byrddau Plant ac Oedolion, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016, lluniwyd fframwaith i ddechrau gweithio i newid is-ddiwylliant y ddau Fwrdd.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygu holl is-grwpiau'r ddau Fwrdd, eu haelodaeth, eu Cylchoedd Gorchwyl a'u cynlluniau gwaith. Mae hefyd wedi cynnwys cyfuno grwpiau lle roedd modd gwneud hynny. Er mai megis dechrau y mae'r gwaith hwn mae'r newid wedi bod yn un cadarnhaol at ei gilydd, ac mae wedi bod yn gyfle i aelodau'r Byrddau a'r grwpiau i ad-drefnu eu blaenoriaethau a sicrhau bod eu cynlluniau gwaith yn cyd-fynd â deddfwriaeth newydd a'u bod yn berthnasol i waith y Byrddau.

Ein Gweledigaeth

Dyma yw gweledigaeth SEWSCB:

Mae'r holl blant a phobl ifanc sy'n byw yn Ne Ddwyrain Cymru'n cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod, yn byw mewn cartrefi a chymunedau diogel ac yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial llawn.

Dyma yw gweledigaeth GwASB:

Rydym yn diogelu oedolion a chanddynt anghenion gofal a chymorth, ac sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, neu y mae perygl iddynt gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Rydym yn gweithio i sicrhau na fydd mwy o oedolion ledled Gwent yn wynebu perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Aelodaeth

Rhestrir isod aelodaeth y ddau Fwrdd:

AELODAETH BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU	
Duncan Forbes Cymdeithas Tai Bron Afon	Prif Swyddog Gweithredol

AELODAETH BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU	
Cadeirydd	
Liz Baker Barnardos Cymru Is-gadeirydd	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant
Tanya Evans Chris Bradley Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent	Pennaeth Gwasanaethau Plant Rheolwr Gwasanaeth
Gareth Jenkins David Thomas Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol Rheolwr Gwasanaeth
Jane Rodgers Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy	Pennaeth Gwasanaethau Plant
Sally Jenkins Mary Ryan Gwasanaethau Cymdeithasol Casnewydd	Pennaeth Gwasanaethau Plant Rheolwr Diogelu
Bernadette Anderton Deborah Davies Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen	Pennaeth Gwasanaethau Plant Rheolwr Grŵp Diogelu

AELODAETH BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU	
Lin Slater Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio
Dr Aideen Naughton Kathy Ellaway Iechyd Cyhoeddus Cymru	Meddyg Dynodedig, Diogelu Plant Nyrs Ddynodedig, Diogelu Plant
Nikki Harvey Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	Swyddog Arweiniol Diogelu
Leanne Brustad Heddlu Gwent	Ditectif Uwch-arolygydd
Simon Locke Tîm Dyletswydd Argyfwng De Ddwyrain Cymru	Rheolwr Tîm
Dermot McChrystal Addysg Torfaen	Pennaeth Addysg
Nic Davies Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru	Pennaeth Uned Cyflenwi Lleol Gwent
Giles Mason	Llywodraethwr

AELODAETH BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU	
CEM Brynbuga / Prescoed	
Diana Binding Cwmni Adsefydlu Cymunedol	Prif Weithredwr Cynorthwyol
Michaela Rogers Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	Rheolwr Gwasanaeth
Rebecca Haycock VAWDASV	Cynghorydd Rhanbarthol
Bethan Manners Gwasanaethau Cyfreithiol	Uwch Gyfreithiwr
Ian Bakewell Tai Sir Fynwy	Rheolwr Tai
Peter Kennedy Cynghrair Gwirfoddol Torfaen	Uwch Swyddog Gweithredol
Martin Featherstone GAVO	Prif Swyddog Gweithredol

AELODAETH BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU	
Liz Evans Cymdeithas Tai Bron Afon	Pennaeth Tai
Eleri Thomas Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Dirprwy Gomisiynydd
Mel Roach Kelly Richards a Steve Berry Uned Fusnes SEWSCB	Rheolwr yr Uned Fusnes Swyddog Datblygu x 2

AELODAETH BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN	
Dave Street Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cadeirydd	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Lin Slater Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Is-gadeirydd	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio
Alyson Hoskins asanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Christopher Bradley	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Blaenau Gwent

AELODAETH BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN	
Jo Williams Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
David Thomas	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Caerffili
Julie Boothroyd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Ian Bakewell	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Sir Fynwy
Chris Humphrey Gwasanaethau Cymdeithasol Casnewydd	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Mary Ryan	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Casnewydd
Gill Pratlett Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Deborah Davies	Cadeirydd Rhwydwaith Diogelu Lleol Torfaen
Dr Nigel Farr Iechyd Cyhoeddus Cymru	Meddyg Dynodedig, Diogelu
Nikki Harvey Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	Swyddog Arweiniol Diogelu
Leanne Brustad Heddlu Gwent	Ditectif Uwch-arolygydd

AELODAETH BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN	
Steve Bartlett	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Kay Galvin Gwasanaeth Tân De Cymru	Pennaeth Addysg
Nic Davies Heather Nicholls Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru	Pennaeth Uned Cyflenwi Lleol Gwent Dirprwy Bennaeth Uned Cyflenwi Lleol Gwent
Giles Mason CEM Brynbuga / Prescoed	Llywodraethwr
Diana Binding Cwmni Adsefydlu Cymunedol	Prif Weithredwr Cynorthwyol
Rebecca Haycock VAWDASV	Cynghorydd Rhanbarthol
Scott Sanders Charter Housing & Derwen Cymru	Cyfarwyddwr
Peter Kennedy Cynghrair Gwirfoddol Torfaen	Uwch Swyddog Gweithredol

Y Gyllideb

Mae'r Byrddau'n cael eu hariannu drwy gyfraniadau gan asiantaethau statudol sy'n bartneriaid ac sydd wedi cytuno ar y fformiwla ariannu a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg', y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r cyllid hwn yn ariannu Uned Fusnes Ranbarthol Diogelu sy'n cynnwys rheolwr busnes, swyddogion datblygu a staff cymorth gweinyddol sy'n darparu cymorth i'r byrddau plant ac oedolion a'r holl is-grwpiau. Nodir union gostau'r cymorth hwn isod.

Cyfanswm y costau	£355,000
Costau staff	£289,000
Costau cynnal o ddydd i ddydd	£26,000
Adolygiadau ymarfer plant	£4,000
Adolygiadau ymarfer oedolion	£4,000
Rhaglenni Hyfforddi	£22,000
Cyswllt / Gwefannau a Chyhoeddusrwydd / Digwyddiadau Proffesiynol (gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Diogelu)	£10, 000

Datganiad Cydraddoldeb

Bydd Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan yn gweithio'n ddiflino yn erbyn pob math o wahaniaethu tuag at a chan blant a phobl ifanc, ac oedolion a allai fod mewn perygl waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau unigol. Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb yn cynnwys tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Yr Hyn Rydym Wedi'i Wneud Hyd Yma – SEWSCB

Mae hanes hir yn ardal De Ddwyrain Cymru o gydweithio ar draws y Byrddau Lleol Diogelu Plant dros y blynyddoedd, ac wrth i'r agenda gydweithredol gryfhau, yn 2013 penderfynwyd cyfuno'r 5 Bwrdd Lleol yn y rhanbarth. Mae SEWSCB yn bwrw ymlaen â'r gwaith a ddechreuwyd bryd hynny, ac yn darparu man cychwyn cryf.

Ymhlith rhai o brif lwyddiannau'r cydweithredu hwnnw mae:

- Datblygu canllawiau esgeulustod i wirfoddolwyr a gweithwyr i'w helpu i weithio gyda theuluoedd lle mae esgeulustod yn broblem.
- Cynnal cynhadledd ar esgeulustod i weithwyr proffesiynol o bob rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol
- Hyfforddi miloedd o wirfoddolwyr a gweithwyr i allu adnabod ac adrodd am bryderon am blant a gweithio gyda theuluoedd lle ceir problemau o ran cam-drin a/neu esgeulustod
- Ymgynghori â phlant a phobl ifanc mewn nifer o ddigwyddiadau meithrin cyswllt a chan ddefnyddio holiadur i holi barn plant a phobl ifanc sy'n rhan o'r broses amddiffyn plant

- Defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd yn y digwyddiadau hyn i lywio'r cynllun hwn
- Ymgynghori â rhieni a llunio ystod o daflenni cyngor a chyfarwyddyd
- Datblygu gwefannau sy'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd i blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
- Cyflwyno gwelliannau i ymarfer wrth weithio gyda theuluoedd cymhleth ac achosion sydd 'mewn rhigol'
- Sefydlu grŵp i edrych ar faterion ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Cynhyrchu casgliad o wybodaeth i ddysgu gweithwyr proffesiynol a phlant a phobl ifanc am gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar draws amryw o wahanol gyfryngau
- Datblygu rhaglen hyfforddi i arfogi gweithwyr proffesiynol i gadw pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio technoleg
- Datblygu amryw o brotocolau a gweithdrefnau rhanbarthol i helpu gweithwyr proffesiynol yn eu gwaith o ddydd i ddydd
- Cydweithio'n agos â'r cynllun peilot rhanbarthol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) i sicrhau ei bod yn haws cael hyfforddiant a chyngor
- Cydweithio'n agosach â GwASB (y bwrdd diogelu oedolion rhanbarthol) i wella cysylltiadau ar draws yr holl agenda ddiogelu
- Cymryd rhan yn wythnos genedlaethol diogelu gydag amryw o ddigwyddiadau, a chynhadledd ar eu diwedd i weithwyr proffesiynol ar ddiogelu oedolion a phlant a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cynnal adolygiad o'r ffordd rydym yn gweithio a phennu'r ffordd orau o weithredu'n fwy cyfannol wrth ddiogelu

Yr Hyn Rydym Wedi'i Wneud Hyd Yma – GwASB

Mae hanes hir yn ardal Gwent o gydweithio er mwyn diogelu oedolion sy'n agored i niwed, ac wrth i'r agenda gydweithredol gryfhau, yn 2011 penderfynwyd cyfuno'r 5 ardal awdurdod lleol i greu un bwrdd diogelu oedolion. Mae GwASB yn bwrw ymlaen â'r gwaith a ddechreuwyd bryd hynny, ac yn fan cychwyn cryf i ddechrau gweithio fel partneriaeth statudol arweiniol ar ddiogelu oedolion.

Ymhlith rhai o brif lwyddiannau'r cydweithredu hwnnw mae:

- Ymgynghori â dinasyddion mewn amryw o ddigwyddiadau meithrin cyswllt a fforymau lleol a rhanbarthol i holi barn pobl am y broses amddiffyn oedolion a'r bwrdd diogelu
- Defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd yn y digwyddiadau hyn i lywio'r cynllun hwn
- Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a datblygu ystod o daflenni cyngor a chyfarwyddyd
- Datblygu gwefannau sy'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd i rieni a gofalwyr, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
- Cytuno ar 'frand' a logo i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod proffil y Bwrdd yn cael ei godi ymhlith dinasyddion yng Ngwent
- Cynhyrchu newyddlen chwarterol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol am waith y Bwrdd
- Datblygu set ddata i feincnodi gweithgarwch Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) ledled y rhanbarth
- Monitro perfformiad darpariaeth cartrefi gofal ledled y rhanbarth, yn enwedig pan fo pryderon yn cael eu lleisio

- Sefydlu grŵp i gynnal archwiliad o 'godymau' mewn lleoliadau gofal preswyl
- Defnyddio'r wybodaeth o'r archwiliad hwnnw i lunio canllawiau ar arfer gorau i staff gofal
- Cefnogi gwaith cwmpasu menter ranbarthol y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH)
- Datblygu ystod o fodiwlau hyfforddi o ymwybyddiaeth sylfaenol hyd at lefel uwch i arfogi gweithwyr proffesiynol i gadw oedolion y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel mewn amryw o leoliadau
- Cydweithio'n agos â'r cynllun peilot rhanbarthol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) i sicrhau ei bod yn haws cael hyfforddiant a chyngor
- Cydweithio'n agosach â SEWSCB (y bwrdd diogelu plant rhanbarthol) i wella cysylltiadau ar draws yr holl agenda ddiogelu
- Cymryd rhan yn wythnos genedlaethol diogelu gydag amryw o ddigwyddiadau, a chynhadledd ar eu diwedd i weithwyr proffesiynol ar ddiogelu oedolion a phlant a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cynnal adolygiad o'r ffordd rydym yn gweithio a phennu'r ffordd orau o weithredu'n fwy cyfannol wrth ddiogelu
- Rydym wedi adolygu a diwygio cylch gorchwyl ac aelodaeth pob un o'n his-grwpiau ac wedi cyfuno gwaith rhai ohonynt, er mwyn sicrhau bod amser ac adnoddau'r asiantaethau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau.

Manylion gwaith yr is-grwpiau

Grŵp Adolygu Achosion – (Grŵp Adolygu Ymarfer Plant, Grŵp Datblygu Ymarfer a Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion gynt)

Mae'r grŵp newydd hwn yn gweithio ar draws meysydd oedolion a phlant. Dyma rywfaint o'r gwaith a gwblhawyd hyd yma:

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd
- Cytuno ar broffiliau swyddi'r cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r aelodau
- Cytuno ar siartiau llif newydd i symleiddio'r broses o gynnal adolygiadau
- Sicrhau ansawdd adolygiadau ymarfer plant a fforymau proffesiynol amlasiantaeth cyn eu cyflwyno'n derfynol i'r Byrddau
- Gweithio ar ddull gweithredu ar y cyd i ymdrin ag adolygiadau o ddynladdiadau domestig gyda chydweithwyr o'r tîm lleol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)
- Cwblhau tri adolygiad ymarfer plant a chytuno ar gynlluniau gweithredu i bob un

Grŵp Cynllunio Busnes

Mae hwn yn grŵp cwbl newydd a ffurfiwyd i sicrhau bod llywodraethu'n digwydd ar draws gwaith yr is-grwpiau, ac i dderbyn adroddiadau gan bob un o'r grwpiau hyn fel bod strwythur adrodd llawn i'r ddau Fwrdd. Dyma rywfaint o'r gwaith a gwblhawyd hyd yma:

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd
- Darparu fforwm i gadeiryddion yr holl grwpiau eraill i gwrdd a chyfrannu at yr agenda ddiogelu ar draws meysydd gwaith
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau strategol i'r ddau Fwrdd

- Sicrhau llif gyfathrebu ddwyffordd rhwng byrddau strategol ac is-grwpiau
- Darparu fframwaith adrodd i fforymau rhanbarthol eraill megis cyfarfodydd MASE

Grŵp Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad (Oedolion) – Grŵp Sicrhau Ansawdd Oedolion gynt

Dyma un o'r is-grwpiau sydd wedi aros yn un 'oedolion yn unig' gan fod yr aelodau wedi penderfynu bod y ddau grŵp rheoli perfformiad ar lefelau gwahanol o ran eu datblygiad:

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd
- Trosglwyddo'r cynllun gwaith o'r grŵp sicrhau ansawdd blaenorol a chwblhau unrhyw gamau gweithredu oedd heb eu cwblhau
- Dirwyn y cynllun gwaith blaenorol i ben a mabwysiadu blaenoriaethau newydd yn seiliedig ar y cynllun strategol newydd
- Dechrau gweithio i symud oddi wrth set ddata graidd tuag at fframwaith rheoli perfformiad mwy cynhwysfawr

Grŵp Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad (Plant) – Grŵp Datblygu Ymarfer gynt

Dyma'r unig is-grŵp arall sydd wedi aros yn un 'plant yn unig' gan fod yr aelodau wedi penderfynu bod y ddau grŵp rheoli perfformiad ar lefelau gwahanol o ran eu datblygiad:

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd
- Trosglwyddo gwaith o'r hen gynllun gwaith datblygu ymarfer a chwblhau neu ddwyn ymlaen unrhyw gamau gweithredu oedd heb eu cwblhau
- Cytuno ar raglen waith
- Parhau i fonitro a chwblhau camau gweithredu o adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau achosion difrifol y cytunwyd arnynt o'r blaen
- Dechrau gweithio i lunio fframwaith rheoli perfformiad cynhwysfawr a fydd yn rhoi gwybodaeth i aelodau'r Bwrdd ynghylch y darlun o ran diogelu plant ledled Gwent

Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau – Protocolau a Gweithdrefnau i blant yn unig gynt

Mae'r grŵp hwn wedi dechrau gweithio ar draws y byrddau plant ac oedolion. Nid oedd grŵp i ystyried protocolau i oedolion o'r blaen.

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd
- Adolygu'r cynllun gwaith plant blaenorol a'i adolygu yn sgil newidiadau i'r ddeddfwriaeth
- Cynnwys gwaith sy'n rhychwantu'r agenda oedolion, gyda chynlluniau i lunio canllawiau a phecynnau cymorth i ymarferwyr ar draws y ddau faes gwaith
- Ad-drefnu ein blaenoriaethau er mwyn cydymffurfio â'r adolygiad o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a'r gweithdrefnau amddiffyn oedolion drafft
- Cadw cysylltiad agos â'r gwaith i ddatblygu'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol

Grŵp Cyswllt a Chyfathrebu – Cyswllt a Chyfathrebu i blant ac oedolion gynt

Mae'r grŵp newydd hwn bellach yn cyfuno gwaith ar draws y ddau faes ac yn gweithio i gynnwys pob dinesydd yng ngwaith y Byrddau.

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd
- Adolygu cynlluniau gwaith y ddau grŵp blaenorol a dwyn ymlaen eitemau heb eu cwblhau
- Ad-drefnu'r blaenoriaethau blaenorol i gyd-fynd â newidiadau i'r ddeddfwriaeth
- Cynnwys cynrychiolaeth o Banel Dinasyddion Gwent fel aelod sefydlog o'r grŵp
- Cytuno i feithrin cyswllt â phlant a phobl ifanc mewn amryw o ddulliau a ffyrdd
- Cytuno i adrodd i fwrdd strategol VAWDASV
- Cytuno i feithrin cyswllt â goroeswyr cam-drin domestig drwy amryw o ddulliau a fforymau
- Cytuno i gael grŵp prosiect sefydlog i helpu i ddatblygu a diweddaru'r wefan

Grŵp Dysgu a Datblygu – Grŵp Hyfforddiant Oedolion a Grŵp Hyfforddiant Plant gynt

Mae'r grŵp newydd hwn yn cyfuno gwaith ar hyfforddiant plant ac oedolion, ac yn cydnabod er hynny fod y ddau ar lefelau gwahanol o ran eu datblygiad. Y gobaith yw y bydd cyfuno'r ddau yn sicrhau mwy o gysondeb ar draws y ddau faes gwaith.

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd
- Adolygu a diwygio rhaglenni gwaith y naill grŵp a'r llall
- Cytuno ar nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen i edrych ar sicrhau ansawdd darpariaeth hyfforddiant, gan roi'r un statws i ddarpariaeth hyfforddiant oedolion â'r ddarpariaeth hyfforddiant plant
- Symud oddi wrth fodel hyfforddi'r hyfforddwr tuag at fodel grŵp cyflenwi sy'n fwy cefnogol a chynhwysol i weithwyr proffesiynol sy'n darparu adnoddau i'r bwrdd
- Cydnabod bod y ddarpariaeth i weithwyr proffesiynol diogelu plant yn dda ond bod angen sicrhau darpariaeth gyfatebol i weithwyr proffesiynol diogelu oedolion.

Ceir isod fanylion y ddarpariaeth a ddarparwyd gan SEWSCB ar gyfer blwyddyn ariannol 2016 i 2017:

Faint rydyn ni wedi'i wneud																
Cyrsiau hyfforddi SEWSCB a ddarparwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017																
Teitl y Cwrs	**Nifer y Sesiynau**	**B.I.P.A.B.**	**Addysg/ Ysgolion**	**AGC**	**ALl**	**GTI**	**Heddlu**	**Prawf**	**Tai**	**Barnardos**	**GAVO**	**NYAS**	**Sector gwirfoddol/ 3ydd sector**	**Tân**	**GDAS**	**Preifat**
Cynllunio Amddiffyn Plant	5	9	9	34	2	3		2	5			1	3		2	
Dedfryd Gudd	5	12	10	14	2	3	1	7	4	6			6		4	
Rheoli pobl ifanc sy'n ymroi i ymddygiad rhywiol niweidiol	5	8	31	38	6	5							9			1
Esgeulustod	4	5	13	19	10	2		3	3	2	1		4		2	1
Ymwybyddiaeth o sylweddau seicoweithredol newydd	4	10	12	12	13	2	6	6	3	1			1		2	
Lefel 2 Adnabod ac Atgyfeirio	1		12	6	1	1				1					3	1
Cyflwyniad i Ddiogelu - ½ diwrnod	23	83	85	46	62	9	1	10	15	1			33		11	9
Diogelu Plant: Adnabod ac Atgyfeirio a'r Broses Amddiffyn Plant - 1 diwrnod	2	6	21	2	1	1							1		4	
Diogelwch gyda Thechnoleg	11	26	61	46	15	2			4	7			16			5
SERAF	8	24	15	43	3	2		11	2	2			8		2	4
Ymwybyddiaeth Rywiol	5	27	18	25	2	3	6	2	4	1			7		1	
Hunan-niweidio & Hunanladdiad	2	9	13	14	1		1	2	1	1						
CYFANSWM:	**75**	**219**	**300**	**299**	**118**	**33**	**15**	**43**	**41**	**22**	**1**	**1**	**88**	**0**	**31**	**21**

SEWSCB – Nifer yr enwebiadau, nifer oedd yn bresennol, ymddiheuriadau a heb droi i fyny ar bob cwrs					
Teitl y Cwrs	**Nifer yr Enwebiadau**	**Nifer oedd yn bresennol**	**Nifer yr ymddiheuriadau / cansladau**	**Nifer heb droi i fyny**	**Cerdded i mewn**
Cynllunio Amddiffyn Plant	102	70	10	5	1
Dedfryd Gudd	97	69	5	7	2
Rheoli pobl ifanc sy'n ymroi i ymddygiad rhywiol niweidiol	126	98	13	2	1
Esgeulustod	166	65	12	5	1
Ymwybyddiaeth o sylweddau seicoweithredol newydd	130	68	11	2	0
Lefel 2 Adnabod ac Atgyfeirio	47	25			4
Cyflwyniad i Ddiogelu - ½ diwrnod	447	365	32	29	9
Diogelu Plant: Adnabod ac Atgyfeirio a'r Broses Amddiffyn Plant - 1 diwrnod	79	36	6		3
Diogelwch gyda Thechnoleg	223	182	6	6	6
SERAF	191	116	19	8	5
Ymwybyddiaeth Rywiol	157	96	9	10	2
Hunan-niweidio & Hunanladdiad	51	42	3	2	1
Cyfanswm	**1816**	**1232**	**126**	**76**	**35**

Faint rydyn ni wedi'i wneud	
Ymweliadau â gwefan SEWSCB rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 = **59,934**	Nifer Defnyddwyr Cofrestredig system archebu SEWSCB ar 31.03.17 – **3,895**

Faint rydyn ni wedi'i wneud																
Cyrsiau hyfforddi VAWDASV a ddarparwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017																
Teitl y Cwrs	**Nifer y Sesiynau**	**B.I.P.A.B.**	**Addysg/ Ysgolion**	**AGC**	**ALl**	**GTI**	**Heddlu**	**Prawf**	**Tai**	**Barnardos**	**CEM**	**Tân**	**Sector gwirfoddol/ 3ydd sector**	**GEG**	**GDAS**	**NYAS**
Rheolaeth drwy Orfodaeth	1	2		10				1	3	2			2			
Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig	10	22	10	68	8	4	5	1	10	3	1	1	16	1	11	
DASH & MARAC	7	19	2	35	4	6	1	2	10	5	1	1	7		21	
Cam-drin Domestig a'i Effeithiau ar Blant	1	2	1	8	1	2				1			1			
Priodi dan Orfod a Thrais ar Sail Anrhydedd	1			8		1	2	1					1		4	
Trais Rhywiol	2	2	1	14	1	2		1	4	4			2			
Deall Tramgwyddwyr	2			14	2			1	2	1			5	1	2	1
Gweithio gyda Dioddefwyr	1	2		1					2				4			
Gweithio gyda Dynion sy'n Dioddef Cam-drin Domestig	1	1		3					4				3		2	
Cyfanswm	**26**	**50**	**14**	**161**	**16**	**15**	**8**	**7**	**35**	**16**	**2**	**2**	**41**	**2**	**40**	**1**

VAWDASV - Nifer yr enwebiadau, nifer oedd yn bresennol, ymddiheuriadau a heb droi i fyny ar bob cwrs					
Teitl y Cwrs	**Nifer yr Enwebiadau**	**Nifer oedd yn bresennol**	**Nifer yr ymddiheuriadau / cansladau**	**Nifer heb droi i fyny**	**Cerdded i mewn**
Rheolaeth drwy Orfodaeth	28	20	0	0	3
Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig	221	161	13	16	6
DASH & MARAC	32	16	3	0	0
Cam-drin Domestig a'i Effeithiau ar Blant	172	114	15	11	1
Priodi dan Orfod a Thrais ar Sail Anrhydedd	21	17	4	0	1
Trais Rhywiol	44	31	0	2	0
Deall Tramgwyddwyr	48	29	5	4	0
Gweithio gyda Dioddefwyr	10	9	0	0	0
Gweithio gyda Dynion sy'n Dioddef Cam-drin Domestig	23	13	0	2	0
Cyfanswm	**599**	**410**	**40**	**35**	**11**

Diweddglo

Er bod tystiolaeth fod llawer o waith wedi'i wneud ledled y rhanbarth rydym yn gwybod bod mwy o lawer i'w wneud o hyd. Gwaith datblygu sydd wedi'i wneud gan fwyaf gan yr is-grwpiau newydd hyd yma ac rydym yn ffyddiog y gallwn adeiladu ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

Mae cynlluniau gwaith pob un o'r grwpiau newydd bellach yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Byrddau a bydd adroddiadau yn y dyfodol wedi'u mireinio ac yn fwy mesuradwy wrth i ffrydiau gwaith ddatblygu o flwyddyn i flwyddyn. Hyd yma ni chafwyd yr un Gorchymyn Amddiffyn Oedolion na Gorchymyn Cynorthwyo yn rhanbarth Gwent, ond rydym yn ymwybodol o hyfforddiant cenedlaethol i arfogi gweithwyr proffesiynol yn y maes gwaith pwysig hwn.

Rydym hefyd yn cydnabod mai megis dechrau y mae'r gwaith ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn y rhanbarth ond rydym yn ffyddiog y gallwn ddefnyddio sgiliau ein gweithlu plant i'n helpu i fwrw ymlaen â'r maes gwaith pwysig hwn.

Yn olaf, rydym yn falch iawn o'r cydweithredu a fu yn y rhanbarth â phartneriaeth strategol VAWDASV. Mae timau'r Uned Fusnes ac Uned Gymorth VASDASV yn cydweithio'n agos, ac yn aml yn rhannu swyddfeydd a sgiliau, sy'n cyfoethogi dealltwriaeth y naill a'r llall o'n gwaith. Mae hyn wedi ein helpu i leihau costau wrth i ni ddefnyddio'r lleoliadau hyn a rennir i gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant.